



Adroddiad Blynyddol

Tribiwnlys Prisiau Cymru

Carolyn Dawson (Prif Swyddog Gweithredol)

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd Cenedlaethol y Tribiwnlys	2
Rhagair gan y Prif Swyddog Gweithredol	3
Baich gwaith, apelau pellach a chwynion	4
Mentrau Cymraeg	7
Aelodaeth	9
Cyngor Llywodraethu	11
Staffio	13
Ystadau a chyfleusterau	15
Cyllid	16
Datganiadau a lofnodwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol (yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)	
Datganiad Llywodraethu	18
Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu	19
Atodiadau	
A Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd	22
B Data Clirio Apelau 2023/24	23
C Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) – tabl canlyniadau	24
D Diffiniadau KPI ar gyfer 2023/24	25
E Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2023/2024	26
F Cynllun Trefniadaethol	27

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Rhagair y Llywydd Cenedlaethol:

Bu'n flwyddyn brysur ar y Tribiwnlys. Yn dilyn ymddeoliad y Prif Swyddog Gweithredol Andrew Shipside yn 2023, penododd y Cyngor Llywodraethu Carolyn Dawson yn Brif Swyddog Gweithredol newydd ar ôl proses recriwtio eang. Diolchwn i Andrew am ei arweiniad ac yr ydym yn falch fod Carolyn wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb, er gwaethaf yr heriau y mae hi wedi'u hwynebu.

Mae'r cyllid a neilltuwyd wedi bod yn fodd i ni benodi staff ychwanegol, gan gryfhau ein tîm a gwella cymwyseddau yn y Gymraeg a sicrhau ein bod yn medru mynd i'r afael ag ailbrizio'r Dreth Gyngor 2023 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Er bod yr aelodaeth wedi cyrraedd isafbwynt o 62, mae newidiadau i Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru ym mis Awst 2023, gan ddiddymu'r cyfyngiad tymor 10 mlynedd, wedi ein galluogi i ailbenodi pum cyn-aelod profiadol. Mae ymdrechion pellach i recriwtio yn parhau.


Mae hyfforddiant yn ymrwymiad cryf ar gyfer aelodau a staff o hyd. Mae hyfforddiant blynyddol ar gyfer Aelodau a Chadeiryddion yn parhau, ac ailgyflwynwyd cyfarfodydd rheolaidd i'r Cadeiryddion. Diolchaf i'r Tîm Rheoli am roi rhaglen hyfforddiant barhaus ar waith.

Mae datblygu ein system TG fewnol yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r contractiwr TG annibynnol Mr. Mark Rasin a'r Rheolwr Gweithredol Simon Hill yn datblygu porth ar gyfer cyflwyno apelau ac ap iPad fydd yn gwella effeithlonrwydd y tribiwnlys.

Mae'r Cyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys tri Chynrychiolydd Cenedlaethol, un penodai Llywodraeth Cymru, a finnau fel Llywydd, wedi gweithio'n effeithiol yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Mae'n ofid i ni nad oedd Russell Lawson, penodai Llywodraeth Cymru, wedi dewis ceisio cael ei ailbenodi. Gwelwn eisiau ei gyfraniadau, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio ei olynydd.

Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Prif Swyddog Gweithredol, y Rheolwr Gweithredol, y Clercod Tribiwnlys, a'r staff cymorth am eu gwaith caled, gan sicrhau bod y Tribiwnlys yn dal i gynnig gwasanaeth effeithiol a phroffesiynol. Rwyf yn ffyddiog y bydd y gwasanaeth yn parhau i gael ei reoli'n dda.

Gyda fy niolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.



Carol Cobert
Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Rhagair gan y Prif Swyddog Gweithredol

Rhagair y PSG:

Ar ôl cymryd yr awenau ym mis Gorffennaf 2023, mae wedi bod yn amser prysur dros ben i Dribiwnlys Prasio Cymru (TPC). Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y newidiadau a roddwyd ar waith gennym dros y flwyddyn flaenorol a'r canlyniadau yn sgil y disgwyliadau a osodwyd yn ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2023/24.

Nid gormodiaith fyddai dweud bod disgwyl ailbriso'r Dreth Gyngor wedi achosi i ni i gyd edrych yn fanwl ar y gyfundrefn a phwyso a mesur a oedd ein hadnoddau'n ddigonol i sicrhau canlyniad da. Gyda staff cyfyngedig o 13 yn unig, aelodaeth o 62 yn unig a chyllideb sydd heb weld cynnydd ers rhyw 10 mlynedd, roeddem yn wynebu heriau sylweddol.

Un o brif gryfderau'r Tribiwnlys erioed fu gallu newid ar fyr rybudd. Fodd bynnag, roedd cynyddu nifer y staff a'r aelodau, ehangu, a hybu mwy o hyfforddiant a hyn oll gyda chyllideb ddisymud, yn edrych fel pe bai'n dasg amhosibl.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Trwy fanteisio ar wydnwch, a pharodrwyd i ymgyfaddasu ein tîm, rydym wedi goresgyn rhwystrau er mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddarparu ein gwasanaethau, yn broffesiynol, yn effeithlon, ac yn effeithiol. Rhoddodd hyn amser i ni recriwtio Aelodau a Chlercod Tribiwnlys newydd, gan wella datblygiad proffesiynol ein staff presennol, gyda'r nod o roi hwb i'n heffeithlonrwydd trefniadaethol ar yr un pryd ag ymdrin â chynnydd mewn cyfraddau clirio apelau. Ar ben hynny, rydym wedi parhau i uwchraddio ein galluoedd technegol wrth ddatblygu Porth ar gyfer cyflwyno apelau Rhestr Ardrethu 2023.

Wrth inni fwrw golwg yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio, gallwn weld bod ein hymdrechion yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'r camau a gymerwyd gennym yn cwrdd â'r disgwyliadau a osodwyd yn ein cynllun corfforaethol. Mae ein gallu i ymaddasu ac arloesi yn wyneb gofidiau yn cadarnhau ein hymrwymiad i wasanaethu pobl Cymru gydag uniondeb a rhagoriaeth.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn ymroddedig o hyd i wella ein gwasanaethau a sicrhau ein bod wedi ymbaratoi'n dda at y dyfodol. Rwyf yn ffyddiog, gyda chefnogaeth barhaol ein staff, ein haelodau, a'n rhanddeiliaid, y medrwn ni weithio ein ffordd trwy'r heriau o'n blaenau a chyflawni ein nodau.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch ymroddiad i Dribiwnlys Prasio Cymru.



Yn gywir,




Prif Swyddog Gweithredol
Tribiwnlys Prasio Cymru

1. Baich gwaith, apelau pellach a chwynion


- 1.1 Eleni, rhestrodd y Tribiwnlys 5,835 o achosion Ardrethu Annomestig (AAN), cynnydd o oddeutu 2,400 o restrïadau'r flwyddyn flaenorol. Cariwyd 6,333 o apelau ymlaen i 2023, derbyniwyd 2,535 o apelau newydd, a phenderfynwyd ar 600 o apelau mewn tribiwnlysoedd. Roedd y niferoedd hyn yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol, sy'n dangos amlochredd TPC o ystyried ei adnoddau cyfyngedig.



- 1.2 Ynglŷn ag apelau Priso'r Dreth Gyngor (PDG), cariodd TPC 393 o achosion ymlaen, derbyniodd 940 o achosion newydd, rhestrodd 902, a phenderfynodd 336.



- 1.3 Ar gyfer pob apêl Treth Gyngor arall, rhestrodd TPC 94 a phenderfynodd 56. Cafwyd llif cyson o dderbyniadau ar gyfer y math hwn o apêl a dyma'r rhai â'r presenoldeb mwyaf cyson mewn tribiwnlys.



- 1.4 Ynglŷn ag apelau Cymraeg, derbyniodd TPC gyfanswm o 10 apêl. Wedi'u cynnwys yn y derbyniadau hynny a'r apelau hynny a ddygwyd ymlaen, rhestrowyd 13 apêl Gymraeg i'w clywed: cafodd 3 eu gohirio neu'u hoedi, ac aeth 3 ymlaen i dribiwnlys. Clywyd un apêl yn gyfan gwbl o flaen panel Cymraeg.

- 1.5 Crynodeb cyffredinol o lwyth achosion TPC ar gyfer 2023-24

Math ar Apêl	Apelau a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol	Achosion ychwanegol a dderbyniwyd mewn blwyddyn	Achosion a benderfynwyd	Achosion heb eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn
Rhestr AAN 2005	7	0	7	0
Rhestr AAN 2010	172	0	108	64
Rhestr AAN 2017	6326	2522	6319	2529
AAN Amrywiol	11	16	19	8
Treth Gyngor	452	1024	1067	409
CYFANSWM	6,968	3,562	7,520	3,010

- 1.6 Cyflawnodd y Tribiwnlys 6 o'i 9 Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n gysylltiedig â baich gwaith eleni. Y 3 a gollwyd oedd cyhoeddi apelau AAN o fewn 8 wythnos i'r dyddiad targed rhaglennu, apelau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis o'u cyflwyno a cheisiadau PDG i adolygu penderfyniadau fel canran o'r achosion a benderfynwyd.

- 1.7 Nod TPC yw cyflwyno hysbysiadau am wrandawriad i bartïon o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu'r VOA, gyda chyfradd cyflawni targedau o 95%. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, cyrhaeddodd ni 82.2% yn unig. Cafwyd y diffyg hwn yn bennaf oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth, gan fod y VOA wedi gofyn i ni ddefnyddio eu rhestrau o ddewis apelau yn hytrach na glynu wrth y dyddiadau targed wrth amserlennu tribiwnlysoedd.

- 1.8 Gyda chyflwyno Gwirio-Herio-Apelio ar gyfer Rhestr Ardrethu 2023, mae'r KPI hwn bellach yn ddarfodedig ar y cyfan a chaiff ei ddisodli gan darged mwy priodol yn y dyfodol. Er hynny, mae'n werth nodi fod y gyfradd gyflawni 82.2% yn well na 74.1% y flwyddyn flaenorol.
- 1.9 Anelodd TPC at glirio 95% o apelau Treth Gyngor o fewn 12 mis o'u cyflwyno. Eleni, cyflawnon ni gyfradd glirio o 93.3%, sy'n golygu fod 6.7% o achosion yn cael eu datrys ar ôl cael eu cofrestru am dros 12 mis. Er nad ydym wedi cwrdd â'r targed, mae'n welliant pendant ar gyfradd y flwyddyn flaenorol o 89.1%.
- 1.10 Gosodwyd targed o 2% ar gyfer adolygiad PDG o geisiadau am benderfyniad. Derbyniodd TPC gyfanswm o 7 chais o 271 penderfyniad, gwnaed 2 o'r ceisiadau hyn ar sail parti nad oedd yn ymbresenoli yn hytrach nag achwyniad yn erbyn y penderfyniad ei hun. Canlyniad hyn oedd bod TPC wedi colli ei darged gan 0.6% yn unig.

Apelau pellach

- 1.11 Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 2 apêl mewn llysoedd uwch. Apeliwyd 1 penderfyniad AAN i Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys ac apeliwyd 1 penderfyniad Treth Gyngor i'r Uchel Lys.
- 1.12 Mae'r ddwy apêl heb eu penderfynu, gyda'r apêl AAN wedi'i hamserlennu i'w chlywed ym mis Awst.

Cwynion

- 1.13 Ni chodwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Tribiwnlys gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

2 Mentrau Cymraeg


- 2.6 Yn dilyn cyfnod cymharol dawel ar ôl pandemig Covid-19, gwelwyd ton newydd o ran mentrau Cymraeg dros y 12 mis diwethaf. Dechreuodd yr adfywio yma pan benodwyd Efa Gruffudd Jones yn Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2023. Mae ei harweinyddiaeth hi wedi rhoi egni o'r newydd i'r ymdrechion i hybu a diogelu'r iaith Gymraeg.
- 2.7 Ar 21 Tachwedd 2023, mynychodd y staff seminar ar-lein a oedd yn amlygu'r egni newydd yma. Pwnc canolog oedd dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg yn yr achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn erbyn Comisiynydd y Gymraeg. Wedi'i gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2023, cadarnhaodd y dyfarniad gasgliadau'r Comisiynydd o ymchwiliad gorfodi. Fe ddaeth i'r casgliad fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi torri'r safonau Cymraeg trwy fethu ag ystyried yn gywir effaith ad-drefnu tair ysgol gynradd ar yr iaith Gymraeg yn eu proses ymgynghori.
- 2.8 Bellach mae'r penderfyniad carreg filltir hwn yn mandadu bod cyrff yn mynd i'r afael yn benodol ag effaith eu penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg mewn ymgynghoriadau polisi a strategol. Disgwylir y bydd dyfarniad y Tribiwnlys yn arwain at fwy o ystyriaeth i'r Gymraeg mewn prosesau gwneud polisi yn y dyfodol. Mewn ymateb, mae TPC wedi'i ymrwymo i ymgorffori'r argymhellion hyn yn ei benderfyniadau yn y dyfodol.
- 2.9 Ar ddiwedd 2023, penodwyd Osian Llywelyn yn Gyfarwyddwr Rheoleiddio i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae ei fandad yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o ddulliau rheoleiddiol er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd. Rhan allweddol o'r strategaeth hon yw datblygu dull 'cyd-reoleiddio' mwy rhagweithiol yn 2024, gan bwysleisio asesu a lliniaru risg cydweithredol gyda chyrff.
- 2.10 Fel rhan o'r fenter hon, gwahoddwyd TPC a chyrff eraill i gwblhau holiadur byr, erbyn diwedd Ionawr 2024, i roi adborth ar yr iaith Gymraeg. Mae TPC wedi'i ymrwymo o hyd i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gyflawni nodau rheoleiddiol cyfrannol.
- 2.11 Ar 28 Mehefin 2023, cymerodd holl staff TPC ran mewn sesiwn hyfforddi gynhwysfawr o'r enw "Hybu Dwyieithrwydd" a gynhaliwyd gan Steve Eaves a Bethan Williams o Gwmni Iaith, darparwr hyfforddiant iaith mawr ei barch. Derbyniodd y sesiwn hon adborth cwbl gadarnhaol am ei heffeithiolrwydd o ran meithrin amgylchfyd gwaith dwyieithog.
- 2.12 Ar ben yr ymdrechion hyn, cymerodd TPC ran weithgar yn ymgyrch "Defnyddia dy Gymraeg" Comisiynydd y Gymraeg, a gynhaliwyd o 27 Tachwedd i 11 Rhagfyr 2023. Gweithredodd yr ymgyrch hon fel llwyfan i hybu gwasanaethau Cymraeg TPC ac annog y cyhoedd i'w defnyddio. Ar ben hynny, anogwyd staff i integreiddio'r Gymraeg yn eu harferion gwaith o ddydd i ddydd, gyda chefnogaeth adnoddau a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys gwaith celf, logos a fideos.
- 2.13 Mewn ymgais i wella cyfathrebu, mae Tîm Cyfryngau Cymdeithasol TPC wedi dechrau postio'n rheolaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws llwyfannau fel Facebook, X (Twitter gynt), ac Instagram. Mae'r postiadau hyn yn gwneud yn

siŵr fod dyddiadau diwylliannol Cymreig arwyddocaol, fel Dydd Gŵyl Dewi yn cael sylw blaenllaw.

Ehangu'r Tîm a Nodau'r Dyfodol

- 2.14 Mae penodi aelodau staff newydd yn ystod blwyddyn yr adroddiad wedi cryfhau capasiti Cymraeg o fewn TPC. O'r 4 newydd a recriwtiwyd, mae gan 2 allu yn y Gymraeg. Mae hyn yn helpu i gryfhau galluedd y Tîm Cymraeg, trwy ei ymestyn o 2 i 4 aelod. Mae'r ehangu yma wedi bywiogi trafodaethau ar faterion tyngedfennol ar y Gymraeg y mae angen i'r gwasanaeth fynd i'r afael â nhw.
- 2.15 Mae TPC wedi'i ymrwymo o hyd i hybu ei fentrau dwyieithog a meithrin amgylchedd cefnogol i'r iaith Gymraeg.

3 Aelodaeth



- 3.6 Ar ddechrau'r flwyddyn hon, doedd y ffigurau aelodaeth, sef 62, erioed wedi bod mor isel. O ganlyniad i hyn, rhoiodd TPC fwy o sylw i recriwtio aelodau.
- 3.7 Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, gwelon ni 10 aelodaeth yn dod i ben a 5 aelodaeth newydd yn dod yn weithredol. Cafwyd 8 ailbenodiad o blith y 10 aelodaeth a ddaeth i ben, a phenodwyd 4 aelod newydd gennym ar ddechrau 2023.
- 3.8 Ar ôl gweithredu Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru wedi'u diwygio ym mis Awst 2023, a ddileodd y tymor aelodaeth 10 mlynedd hwyaf, cysylltais â nifer o gyn-aelodau TPC i weld a fyddai diddordeb ganddynt mewn ailymgeisio am aelodaeth. Roeddem yn ffodus fod 5 cyn-aelod wedi ailymgeisio a chael eu penodi. Roedd yn wych croesawu'r aelodau profiadol a gwerthfawr hyn yn ôl i'r gorlan.
- 3.9 Er gwaethaf y cynnydd bach yn ein haelodaeth i 66 erbyn diwedd blwyddyn yr adroddiad hwn, nid yw'n ddigon o hyd i sicrhau cynaliadwyedd gwaith y Tribiwnlys.
- 3.10 Mae'r Tribiwnlys wedi bod wrthi'n ddiwyd gyda'i dîm noddi yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio sy'n parhau.
- 3.11 Er mwyn hybu recriwtio a rheoli ailbrisiu pellach ar draws amryw ffrwd waith, mae'r Tribiwnlys yn archwilio dulliau gwahanol. Mae'r prif strategaethau yn cynnwys:

Defnyddio Fideos Recriwtio:

- Defnyddio fideos recriwtio i godi ymwybyddiaeth o swyddi gwag yn yr aelodaeth.

- Dosbarthu'r fideos hyn ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol TPC er mwyn ymgynraedd yn ehangach.

Mynychu Ffeiriau Gwirfoddoli:


- Cymryd rhan mewn ffeiriau gwirfoddoli ar draws Cymru i ddenu gwirfoddolwyr posibl.

Ymgysylltu ag Adrannau Cyfathrebu Awdurdodau Lleol:

- Cydweithio ag adrannau cyfathrebu Awdurdodau Lleol i godi proffil y Tribiwnlys.
- Nod yr ymgysylltu yma yw gwella gwelededd a denu mwy o aelodau gwirfoddol.

3.12 Trwy roi'r strategaethau hyn ar waith, nod y Tribiwnlys yw defnyddio ei adnoddau'n effeithlon i roi hwb i'r ymdrechion recriwtio a sicrhau bod ei dasgau ailbriso yn y dyfodol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

3.13 Mae'r newidiadau bach yn yr aelodaeth eleni wedi esgor ar newid bach yn y proffil oedran cyffredinol, mae'r categori dros 70 oed wedi newid o gynrychioli 59.7% o gyfanswm yr aelodaeth y llynedd i 58% eleni. Mae'r cydbwysedd o ran rhywedd wedi newid ychydig o 3:1 i 2.5:1 – gwryw i fenyw. Mae 28% o'r aelodaeth yn rhugl yn y Gymraeg; mae hyn yn gynydd ar ffigur y llynedd, sef 25%.



3.14 Cadwodd TPC ei ymrwy ymrwymiad cryf i hyfforddi aelodau yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn. Mae'r prif fentrau yn cynnwys:

- **Diwrnod Hyfforddi Aelodau Cymru Gyfan:** Diwrnod hyfforddi cynhwysfawr i aelodau ar draws Cymru.
- **Seminar y Cadeiryddion:** Seminar 1-dydd â ffocws penodol i gadeiryddion.

- **Cyfarfodydd Cadeiryddion Rheolaidd:** Ailgyflwyno cyfarfodydd rheolaidd i gadeiryddion er mwyn hwyluso datblygiad a chyfathrebu parhaus.
- 3.15 Mae TPC wedi cael llwyddiant cyfyngedig wrth gynnal cyfarfodydd hybrid ar gyfer y digwyddiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r corff yn gweithio'n ddiwyd i ddod o hyd i ateb i'r her barhaus hon.
- 3.16 Gyda chalon drom mae'n rhaid i mi roi gwybod am farwolaeth dau o'n haelodau. Yn drist, bu farw Mr Alan Guinn, aelod gwerthfawr o'r Tribiwnlys a wasanaethodd yn hir, ym mis Mai 2023. Hefyd, bu farw Mr Andy Stubbs, aelod TPC newydd, yn gynnar yn 2024. Estynnwyd ein cydymdeimladau dwysaf i'w teuluoedd.

4 Cyngor Llywodraethu

- 4.1 Mae datganiad llywodraethu'r Tribiwnlys ar **dudalen 18** yr adroddiad hwn.
- 4.2 Arweinir y Cyngor Llywodraethu gan Lywydd y Tribiwnlys, Carol Cobert. Deiliaid eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd:


Mr David Evans	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Rhys Prytherch	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr David Subacchi	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Russell Lawson	-	Penodai Llywodraeth Cymru

- 4.3 Daeth tymor penodai Llywodraeth Cymru yn y swydd i ben ym mis Rhagfyr 2023. Gofynnwyd i Mr Lawson a oedd am ymgeisio am dymor olaf, er hynny, oherwydd pwysau gwaith, fe wrthododd, ac mae ei benodiad wedi dod i ben.
- 4.4 O ganlyniad, mae ein tîm noddi Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gosod pethau yn eu lle i recriwtio olynnydd(ion).
- 4.5 Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, cyfarfu'r Cyngor Llywodraethu 6 gwaith, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Hydref, Ionawr, a Mawrth. Cynhwysai cyfarfodydd Medi a Mawrth baneli penodi.
- 4.6 Ar y cyfan, aeth y cyfarfodydd hyn yn ôl i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ond prin iawn oedd effaith hyn ar gost llywodraethu'r flwyddyn sef 0.24% yn unig o gyfanswm gwariant y corff; ychydig o ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol a oedd yn 0.28%.

5 Staffio

- 5.1 Agorodd y flwyddyn gyda 13 swyddog amser llawn mewn swyddi (3 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 7 yn Nhîm y Clercod Tribiwnlys, a 3 yn y Tîm Cymorth Gweinyddol).
- 5.2 Gadawodd Mr Shipsides, y Prif Weithredwr am 10 mlynedd, y gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2023.
- 5.3 Dyrchafwyd Rheolwr Gweithredol presennol yn Brif Weithredwr, yn dilyn ymgyrch recriwtio allanol agored, a phenderfynwyd peidio â recriwtio Rheolwr Gweithredol yn eu lle ar yr adeg honno.
- 5.4 Ar ôl ymgyrch recriwtio penodwyd 4 Clerc Tribiwnlys newydd.
- 5.5 O ystyried y cynnydd yn nhîm y Clercod, dyrchafwyd Mr Geraint Harris yn uwch Glerc Tribiwnlys.
- 5.6 Dangosir y sefyllfa staffio ar ddiwedd y flwyddyn yn y cynllun trefniadaeth isod:

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU



- 5.7 Mae'r penodiadau newydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i ddiogelu'r gwasanaeth am y dyfodol a lliniaru'r risgiau a nodwyd yng nghofrestr risgiau'r drefniadaeth. Mae hefyd yn sicrhau y gall TPC ddelio ag ailbrisió'r Dreth Gyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023.
- 5.8 Cynllunnir recriwtio pellach ar gyfer blwyddyn yr adroddiad nesaf [2024/25].
- 5.9 Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, gall gymryd cryn dipyn o amser i hyfforddi Clercod a theimlir bod angen hyd at ddwy flynedd ar benodeion newydd er mwyn iddynt ennill cymhwysedd llawn.

5.10 Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, rhoddodd TPC raglen hyfforddi gynhwysfawr ar waith i wella sgiliau a gwybodaeth staff. Roedd y prif weithgareddau yn cynnwys:

- **Cyfarfodydd Ymarferwyr:** Cynhaliwyd 4 sesiwn i dîm y Clercod fynd i'r afael â materion ymarferol a gwella effeithlonrwydd trefniadaethol. Hefyd roeddynt yn fodd i ddiweddarau pob Clerc o ran yr arferion a'r rheoliadau diweddaraf.
- **Digwyddiadau Hyfforddi'r Staff i gyd:** Cynhaliwyd 2 ddigwyddiad hyfforddi. Rhoddwyd sylw yn y digwyddiadau hyn i faterion lles ac adeiladu tîm.
- **Cyrsiau Datblygiad Proffesiynol:** Ymrestrodd 2 aelod staff ar gyrsiau IRRV Tech i wella eu cymwysterau proffesiynol.
- **Hyfforddiant Arbenigol:** Cymerodd 4 aelod staff ran mewn cwrs IRRV ar-lein 'Introduction to Council Tax'.
- **Cymryd rhan mewn Cynadleddau:** Mynychodd aelodau staff gynhadledd IRRV yn Telford yn hydref 2023, gan ganiatáu iddynt rwydweithio a chael mewnwelediad gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

5.11 Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad TPC i ddatblygiad proffesiynol parhaus a chynnal safonau uchel o wasanaeth.

5.12 Am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd, nid oedd cofnod salwch staff y Tribiwnlys yn cwrdd â'r KPI a osodwyd gan TPC, h.y. llai na 5 diwrnod o absenoldeb salwch fesul aelod staff. Gwaetha'r modd, eleni, nifer gyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul aelod staff oedd tua 13 dydd.

5.13 Mae'r ffigur hwn wedi'i sgiwio, ar y cyfan, gan salwch staff tymor hir. Yn anad dim, nid oedd absenoldeb salwch gan 10 allan o 16 aelod staff o gwbl yn ystod y flwyddyn hon.

5.14 Byddwn yn edrych ar KPIs TPC wrth gynllunio ymlaen ac yn archwilio a ydynt bellach yn addas i'r diben.

6 Ystadau, cyfleusterau a thechnoleg

- 6.1 Mae gan y Tribiwnlys 1 swyddfa (Yng Nghasnewydd). Fe'i delir ar les breifat a ddaw i ben ym mis Hydref 2024. Mae'r Tribiwnlys a'i ragflaenwyr wedi bod yn yr adeilad ers y 1980au. Cafodd ei ailwampio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys prif swyddfa'r Tribiwnlys a'i ganolfan weinyddol; yn ogystal â hynny, mae'n gartref i 1 brif ystafell wrandawiadau (sydd hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion hyfforddi staff) ac 1 ystafell wrandawiadau / ystafell fwrdd fach. Mae 9 aelod staff wedi'u lleoli yno. Mae gweddill y staff yn gweithio o gartref. Mae'r Tribiwnlys yn llogi mannau cyfarfod allanol mewn rhannau eraill o'r wlad pan fo angen at ddibenion gwrandawiadau mewn lleoedd eraill.
- 6.2 Mae'r Tribiwnlys yn rhedeg system ffôn gwmwl dros y rhyngwyd fel bod modd ateb a throsglwyddo galwadau mewnol ac allanol yn hawdd. Mae cyfrif busnes Microsoft 365 yn darparu cyfleusterau cefn swyddfa safonol, gan gynnwys ebost. Mae system rheoli apelau'r Tribiwnlys wedi cael ei datblygu'n fewnol gyda chontractiwr datblygu TG annibynnol, Mr Mark Rastin; mae'n storio ar gwmwl ac mae hynny'n cael ei ddrychweddu ar storfa fewnol wrth gefn. Mae byrddau gwaith a gliniaduron y staff yn gymharol newydd ac maent yn rhedeg system weithredu Windows 11 Microsoft.
- 6.3 Defnyddir cyfrif busnes Zoom ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau cyswllt fideo. Weithiau defnyddir Microsoft Teams ar gais y partïon
- 6.4 Mae llawer o'r gwaith datblygu TG eleni wedi canolbwyntio ar ddarparu porth cyflwyno apelau ar-lein ar gyfer apelau Rhestr Ardrethu 2023, y mae bellach yn ofynnol iddynt gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys ar ôl rhoi Gwirio-Herio-Apelio ar waith yng Nghymru. Mae'r cyfleuster hwn yn mynd yn fyw ym mis Mai 2024 a chaiff ei ddatblygu'n bellach i ganiatáu cyflwyno'r holl apelau a wneir yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys ar-lein.
- 6.5 Roeddem wedi cynllunio i iPads gael eu dosbarthu i'r aelodau eleni i'w defnyddio yng ngwrandawiadau'r tribiwnlys, er mwyn lleihau faint rydym yn dibynnu ar waith papur ac i gynyddu diogelwch data. Fodd bynnag, mae datblygu ap i wireddu hyn wedi cymryd lawer yn hirach na'r hyn a gynlluniwyd ond mae bellach ar fin cael ei gwblhau. Bellach mae rhoi'r cyfleuster newydd hwn ar waith wedi symud i 2024-25.

7 Cyllid

- 7.1 Gwariant y Tribiwnlys am y flwyddyn oedd oddeutu £1,069,000, ychydig o dan y gyllideb o £1,074,000 a ddyrannwyd. Gwariwyd 67.75% o'r gwariant ar gostau staffio, i lawr o 69.5% y flwyddyn flaenorol, tra bo costau rhedeg gweithredol eraill wedi codi i 32.25% o 30.5%. Llyncwyd y gwarged bach o £5,440 o'r gwariant staffio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Cytundeb Fframwaith gyda TPC. Rhoddir y gwariant yn fanwl yn **Atodiad E**.
- 7.2 Oedi o ran penodi Clercod Tribiwnlys newydd sy'n bennaf gyfrifol am y lleihad bach mewn costau staffio ynghyd â gadael swydd y Rheolwr Gweithredol yn wag. Er gwaethaf hyn, gwelwyd cynnydd hynod o tua 5% yn y bil cyflogau cyffredinol, wedi'i yrru gan ddyfarniad cyflog sylweddol a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y staff sy'n weddill. Mae cyflogau'r Tribiwnlys wedi'u clymu yn ôl contract â'r cytundebau cyflogau Llywodraeth Leol yn genedlaethol.
- 7.3 Ers blwyddyn gyllidol 2018-19, mae dyraniad cyllideb y Tribiwnlys gan Lywodraeth Cymru wedi aros yn ei unfan yn £1.074 miliwn. Yn hanesyddol, mae'r Tribiwnlys wedi ymdopi o fewn i'r gyllideb hon; fodd bynnag, mae'r cynnydd a ragwelir yn amllder ailbriso ardrethi busnes ac ailbriso'r dreth gyngor sydd ar y gweill yn golgyu bod y gyllideb bresennol yn annigonol. Amlygodd adolygiad mewnol yr angen am ailstrwythuro sylweddol a gwella lefelau staffio i ymdrin â'r cynnydd disgwylidig yn niferoedd yr apelau.
- 7.4 I fynd i'r afael â'r heriau hyn, cyflwynodd y Tribiwnlys gais am gynnydd yn ei gyllid.
- 7.5 Amcangyfrifodd y Tribiwnlys y byddai angen ymestyn ei dîm gan hyd at 10 Clerc a 2-3 Swyddog Cymorth Gweinyddol ychwanegol, gan godi nifer y staff i tua 25. Ystyriwyd hefyd ddyrchafiadau mewnol posibl.
- 7.6 O ystyried costau offer TG ychwanegol a hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau newydd, cyflwynwyd cais cyllideb o £1,892,157, sy'n cynrychioli cynnydd o ryw £818,157.
- 7.7 Ym mis Rhagfyr 2023, cadarnhaodd 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25' gyllideb sylfaenol newydd o £1,900,000 i TPC.
- 7.8 Mae'r cyllid hwn yn hanfodol er mwyn diogelu'r corff yn y dyfodol a sicrhau fod y nifer uchel ddisgwylidig o apelau ar ôl Ailbriso'r Dreth Gyngor yn cael eu trin yn effeithlon.

7.9 Dadansoddiad o wariant TPC ar gyfer 2023-24

Maes Gwariant	£	%
Costau Staffio	723,975	67.75%
Costau Gweinyddu	344,585	32.08%
Cyfanswm a Wariwyd	1,068,560	99.83%
Tanwariant	5,440	0.17%
Cyllideb	1,074,000	100%

Datganiadau

(yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prasio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Chynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'u penodir, hyd at dri pherson a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru (Diwygiad) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234) & SI 2023 Rhif 775 (W121)].

Rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau o'r Tribiwnlys a chânt eu hethol gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Cânt sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd tymor.

Manylir ar gyfrifoldebau cyfunol y Cyngor Llywodraethu, cyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prasio Cymru, a lofnodir o dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys Prasio. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinesydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



Carolyn Dawson
TPC – Prif Weithredwr

Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheoli ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol a chofnodion Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig o fewn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn ei dro yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo, i weithwyr y Tribiwnlys, weinyddu eu cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ond mae'n parhau'n bersonol gyfrifol ac yn atebol amdanynt.



Carolyn Dawson
Prif Weithredwr TPC

Atodiadau

- A Niferodd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd**
- B Data Clirio Apelau 2023/24**
- C Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)– tabl canlyniadau**
- D Diffiniadau KPI ar gyfer 2023/24**
- E Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2023/2024**
- F Cynllun Trefniadaethol**

Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys		Nifer o aelodau yn nhîm y Clercod Tribiwnlys = 6.8					
Ebrill	13						
Mai	8	21	at ddiwedd Mai	3.09	fesul cleric	1.54	fesul cleric y mis
Mehefin	11						
Gorffennaf	10	42	at ddiwedd Gorffennaf	6.18	fesul cleric	1.54	fesul cleric y mis
Awst	10						
Medi	14	66	at ddiwedd Medi	9.71	fesul cleric	1.62	fesul cleric y mis
Hydref	12						
Tachwedd	16	94	at ddiwedd Tachwedd	13.82	fesul cleric	1.73	fesul cleric y mis
Rhagfyr	8						
Ionawr	13	115	at ddiwedd Ionawr	16.91	fesul cleric	1.69	fesul cleric y mis
Chwefror	15						
Mawrth	13	143	at ddiwedd Mawrth	21.03	fesul cleric	1.75	fesul cleric y mis
CYFANSWM	178						

Achosion a Restrwyd	AAN 2017	AAN Blaenorol	AAN Arbenigol	Rhestr TG	ADG	GDG	Hysbysiadau Cwblhau	Adolygiadau o Benderfyniadau	CYFANSWM	Nifer ar gyfartaledd fesul cleric
Ebrill	143	0	172	61	15	4	0	0	395	58.09
Mai	383	1	0	82	9	3	0	0	478	70.29
Mehefin	194	6	71	78	0	6	0	4	359	52.79
Gorffennaf	354	0	75	73	8	0	0	2	512	75.29
Awst	378	21	32	28	2	0	0	2	463	68.09
Medi	616	37	72	50	3	2	0	2	782	115.00
Hydref	414	7	100	86	2	4	0	0	613	90.15
Tachwedd	426	4	235	99	12	5	0	0	781	114.85
Rhagfyr	310	1	21	53	2	0	0	0	387	56.91
Ionawr	524	0	29	107	3	1	0	1	665	97.79
Chwefror	591	5	185	96	4	0	0	1	882	129.71
Mawrth	629	3	133	61	6	7	0	1	840	123.53
CYFANSWM	4962	85	1125	874	65	27	0	13	7157	1,052.50

Ystadegau Apêl

01/04/23 - 31/03/24

Treth Gyngor	<i>D/Y</i>	<i>Derbyniwyd</i>	<i>Datryswyd</i>	<i>Penderfynwyd</i>	<i>C/Y</i>
Prisio	393	940	707	271	355
Hysbysiad Annilysrwydd	0	4	0	0	4
Hysbysiad Cosb	0	0	0	0	0
Hysbysiad Cwblhau	0	2	0	0	2
Atebolrwydd	36	43	13	39	27
Gostyngiad	23	26	11	17	21
Adolygiadau o benderfyniad	0	9	0	9	0
Cyfansymiau	452	1024	731	336	409

Ardrethu Annomestig	<i>D/Y</i>	<i>Derbyniwyd</i>	<i>Datryswyd</i>	<i>Penderfynwyd</i>	<i>C/Y</i>
Prisio 2017	6326	2522	5722	597	2529
Prisio 2010	172	0	105	3	64
Prisio 2005	7	0	6	1	0
Hysbysiad Annilysrwydd (2017)	7	13	10	3	7
Hysbysiad Annilysrwydd (2010)	3	0	0	2	1
Hysbysiad Cosb	1	0	1	0	0
Hysbysiad Cwblhau	0	0	0	0	0
Adolygiadau o benderfyniad	0	3	0	3	0
Cyfansymiau	6516	2538	5844	609	2601

Prif gyfansymiau	6968	3562	6575	945	3010
-------------------------	------	------	------	-----	------

Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau

Atodiad C

Mesur perfformiad	Targed 2022/23	Canlyniad 2022/23	Targed 2023/24	Canlyniad 2023/24	Rheswm dros unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach
Hysbysiadau gwrandawiaidau, mewn perthynas â'r rhestr tro cyntaf o apelau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartion o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu VOA.	95%	74.1%	95%	82.2%	Cyhoeddwyd cyfanswm o 3,667 allan o 4,456 o restriau tro cyntaf i bartion o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed y VOA. Er na chwrddodd TPC â'r targed, mae cyflawni 82% eleni yn nodi gwelliant sylweddol ar 74.1% y llynedd. Gyda dyfodiad Gwirio/Herio/Apelio ar gyfer Rhestr Ardrethu 2023, mae'r KPI yma bellach yn ddiangen a chaiff ei ddisodli gan darged mwy priodol yn y dyfodol.
Apelau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	89.1%	95%	93.3%	Roedd 71 allan o 1058 o'r cliriadau yn ymwneud ag achosion oedd yn fwy na 12 mis oed; mewn gwirionedd, cofrestrwyd 6.7% o'r achosion hynny a gliriwyd fel apelau am dros 12 mis cyn cael eu datrys. Er na chyrhaeddwyd y targed, mae cyflawni 93.3% eleni yn welliant pendant ar 89.1% y flwyddyn flaenorol. Oherwydd y cynnydd yn y galw gan y VOA am restriau achosion AAN a'r adnoddau staffio cyfyngedig yn TPC, nid oedd modd rhestru nifer yr achosion PDG sy'n ofynnol er mwyn cwrdd â'r KPI hwn.
Cyhoeddir rhesymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl	95%	97.2%	95%	95.7%	Cyhoeddwyd 41 allan o 933 penderfyniad (4.3%) y tu allan i'r targed 28 diwrnod.
Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion AAN a benderfynwyd	<0.50%	0.28%	<0.50%	0.4%	3 chais o 606 o benderfyniadau. Roedd y 3 chais i gyd ar sail parti nad oedd wedi ymbresenoli.
Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion PDG a benderfynwyd	<2.0%	1.2%	<2.0%	2.6%	7 chais o 271 o benderfyniadau. Roedd 2 ar sail parti nad oedd wedi ymbresenoli.
Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ADG a benderfynwyd	<5.0%	11.1%	<5.0%	3.5%	2 gais o 56 o benderfyniadau.
Penderfyniadau a gyfeiriwyd at lysoedd uwch.	<0.50%	0.36%	<0.5%	0.2%	2 atgyfeiriad o 933 o benderfyniadau.
Penderfyniadau sy'n destun cwyn gan bartion	<1.0%	sero	<1.0%	0.01%	0 cwyn o 840 o benderfyniadau
Nifer o honiadau â seiliau da iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	sero	
Nifer o faterion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	sero	
Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i beidio â bod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.	<5 diwrnod	1.30	<5 diwrnod	12.7 diwrnod	Mae nifer o flynyddoedd ers i TPC fethu â chwrdd â'r targed hwn. Mae'r ffigur wedi'i ystumio gan salwch staff tymor hir. Yn anad dim, nid oedd absenoldeb salwch gan 10 o'r 16 aelod staff.

Diffiniadau KPI

- (a) 95% o hysbysiadau gwrandawiaidau, mewn perthynas â'r rhestrriad tro cyntaf o apelau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartïon o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu VOA.
- (b) 95% o apelau Treth Gyngor (prasio ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys
- (c) Cyhoeddir 95% o'r holl resymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl
- (d) Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 0.5% o'r achosion a benderfynwyd
- (e) Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 2.0% o'r achosion a benderfynwyd
- (f) Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 5.0% o'r achosion a benderfynwyd
- (g) Llai na 0.5% o'r holl benderfyniadau i'w cyfeirio at lysoedd uwch.
- (h) Llai na 1.0% o'r holl benderfyniadau i fod yn destun cwyn gan bartïon
- (i) Dim honiadau â seiliau da iddynt yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys
- (j) Dim materion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys
- (k) Nid yw'r ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.

Atodiad E

Maes gwariant	2023/24		2022/23	
	Swm	Canran	Swm	Canran
Costau staff (ac eithrio pensiynau)	621,758	58.19%	630,728	58.99%
Costau pensiynau	109,217	10.22%	113,184	10.59%
Is-gyfanswm	730,975	68.41%	743,912	69.57%
Costau swyddfeydd	126,978	11.88%	77,968	7.29%
Gwariant ar gyfrifiaduron	90,812	8.50%	71,993	6.73%
Gweinyddiaeth ganolog	58,377	5.46%	44,612	4.17%
Tribiwnlysoedd	20,175	1.89%	22,433	2.10%
Llywodraethu	2,662	0.25%	3,020	0.28%
Hyfforddiant aelodau	10,938	1.02%	53,788	5.03%
Hyfforddiant staff	27,643	2.59%	16,511	1.54%
Ad-daliad benthyciad	0	0%	35,000	3.27%
Is-gyfanswm	337,585	31.59%	325,325	30.43%
Cyfanswm	1,068,560		1,069,237	

CYNLLUN TREFNIADAETHOL

2023-2024

Cyngor Llywodraethol Aelodaeth Gweithwyr Cyflogedig



Llywydd Cenedlaethol
CAROL COBERT



Cynrychiolydd Cenedlaethol
RHYS PRYTHERCH



Cynrychiolydd Cenedlaethol
DAVID EVANS



Cynrychiolydd Cenedlaethol
DAVID SUBACCHI



Penodai Llc
RUSSELL LAWSON



Aelodaeth
[25 x Cadeirydd
41x Aelod]



Cyflogeion
[16 x Gweithiwr
Cyflogedig]